**DATGANIAD I'R WASG**

**BARA CAWS YN CYFLWYNO:**

## 'DIM BYD YNNI gan Emlyn Gomer

### AR DAITH O AMGYLCH CYMUNEDAU CYMRU

Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd Bara Caws yn 40 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn mis Awst eleni , perfformiwyd drama (ffars) gan Emlyn Gomer - '**Dim Byd Ynni'** yn Theatr Fach y Maes. Braf oedd gweld y theatr yn llawn bob nos a phawb yn mwynhau. Derbyniwyd adolygiadau ac ymateb ffafriol iawn i'r ddrama gan y cyhoedd.

Bydd cyfle rŵan i bawb weld y ddrama llawn hwyl a chyffro a fu mor llwyddiannus yn yr Eisteddfod, mewn canolfannau dros Gymru gyfan.

Mae'r daith yn cychwyn Nos **Iau l4 o Fedi** ac yn parhau hyd at Nos **Sadwrn 7fed o Hydref** ac yn ymweld â theatrau a neuaddau pentref yng nghefn gwlad Cymru - Galeri, Caernarfon, Theatr Twm o'r Nant, Dinbych, Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, Neuadd Buddug, Y Bala, Neuadd Llanegryn, Tywyn, Y Ganolfan Llanrwst, Pontio, Bangor, Neuadd Ogwen, Bethesda, Theatr Fach, Llangefni a Neuadd Dwyfor Pwllheli. Mi fydd y ddrama i'w gweld yn ardaloedd y de hefyd –
Theatr Gartholwg, Pentre'r Eglwys, Paget Rooms, Penarth, Canolfan Gelfyddydau Pontardawe, Theatr y Gromlech, Crymych a Neuadd Talybont, Aberystwyth.

Ymysg y cast mae chwech wyneb adnabyddus iawn, sef **Rhian Blythe, John Glyn Owen, Christine Pritchard, Iwan John, Rhys Parry Jones a Rhodri Evan.** Y cyfarwyddwr yw**: Betsan Llwyd.**

> **'Beth yw cyfrinach Syr Felix ap Llywarch? Faint o ledi yw Angela?**
> **Beth ddaeth â Dylan Tudur nôl i'r Plas? Faint o actores yw Candi Mêl? Beth yn union mae Geriach y bwtler yn ei wybod? Faint o ddihyryn yw Malcom Leech? Bywyd pwy sydd mewn perygl, a pham? A, gall yr Arolygydd Carnben ddatrys pob Dirgelwch cyn ei bod yn rhy hwyr?**

Gobeithio y cewch chi gyfle i weld y ddrama gyffrous yma yn **eich ardal chi.** Archebwch docynnau o flaen llaw i arbed unrhyw siomiant.

**Am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â Linda Brown neu Mari Emlyn: 01286 676 335**
**Neu 01286 675869**.